



## Rheolwyr gofal cartref ar y Gofrestr

**1 Ebrill 2019**



### Beth yw'r prif bwyntiau?

Mae rheolwyr gofal cartref wedi gorfod cofrestru gyda ni ers **2014**

Mae **773** o reolwyr wedi'u cofrestru, sef cynnydd ar **642** y llynedd

Mae **745** yn gweithio mewn gofal cartref ar hyn o bryd

Mae'r Gofrestr ar agor i weithwyr gofal cartref yn awr, a rhaid iddynt gofrestru erbyn mis Ebrill **2020**



### Beth yw'r tueddiadau pum mlynedd?

Mae nifer y rheolwyr gofal cartref ar y Gofrestr wedi cynyddu'n gyson o flwyddyn i flwyddyn

Nid yw'r gyfradd menywod i ddynion (**4:1**) wedi newid

Mae canran y rheolwyr sy'n gweithio yn y trydydd sector wedi cynyddu o **19% yn 2014** i **31% eleni**

Mae canran y rheolwyr sy'n gweithio i'r awdurdod lleol wedi gostwng o **20% yn 2014** i **11% eleni**



### Faint sydd wedi gadael ac wedi ymuno â'r Gofrestr?

Yn y flwyddyn ddiwethaf, gadawodd **85** o reolwyr y Gofrestr ac ymunodd **216**

O'r rhai a adawodd y Gofrestr, nid oedd **53%** ohonynt wedi cynnal eu cofrestriad

Roedd **18%** ohonynt wedi symud i swydd lle nad oedd angen cofrestru

Ymddeolodd **6%** ohonynt

Newidiodd **5%** ohonynt i weithio fel rheolwyr cartrefi preswyl i oedolion



### Pa gymwysterau sydd gan reolwyr?

Mae gan bob rheolwr gofal cartref gymhwyster perthnasol

Bellach, mae gan **41%** o reolwyr gofal cartref Ddiploma Lefel 5 mewn Arweinyddiaeth ar gyfer Gwasanaethau Iechyd a Gofal Cymdeithasol (Rheolaeth Oedolion)

Mae gan y gweddill gymhwyster cyfwerth



### Ym mhle mae rheolwyr yn cael eu cyflogi?

Mae **56%** yn gweithio yn y sector preifat

Mae **31%** yn gweithio yn y trydydd sector

Mae **11%** yn gweithio i wasanaethau cymdeithasol awdurdodau lleol

Mae **30%** o reolwyr wedi bod yn eu rolau presennol ers o leiaf pum mlynedd

Mae **52%** o reolwyr wedi newid eu rolau yn ystod y bum mlynedd ddiwethaf



### Beth yw profffil rheolwyr?

Mae **624** o fenywod ac **149** o ddynion

Ar gyfartaledd, mae rheolwyr yn **49** mlwydd oed

Mae **98%** o reolwyr yn wyn, gwyn Prydeinig, gwyn Cymreig neu wyn Gwyddelig

Mae **37%** o reolwyr un ai'n siarad peth Cymraeg neu'n rhugl yn y Gymraeg

Mae gan **2%** o reolwyr anabledd